# Uned 15: Cynhyrchu Dofednod

**Côd yr Uned:** J/600/9148

**FfCC Lefel 3:** BTEC Cenedlaethol

**Gwerth o ran credydau:** 10

**Oriau dysgu dan arweiniad:** 60

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw cyflwyno i'r dysgwyr y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen ar gyfer cynhyrchu dofednod,  a sut gellir eu defnyddio yn ymarferol. Mae wedi'i dylunio ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau sydd am symud ymlaen i'r sector neu i addysg bellach/uwch.

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau dysgwyr a'u gwybodaeth am fonitro a gofalu am ddofednod mewn systemau cynhyrchu gwahanol.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'r diwydiant cynhyrchu dofednod yn y Deyrnas Unedig yn cynnwys tri rhywogaeth yn bennaf: ieir, twrcïod a hwyaid. Mae hefyd yn cynnwys amrywiaeth eang o ddulliau lletya a hwsmona. Gallai'r gweithwyr yn y diwydiant fod yn arbenigwyr, yn gweithio ar un cam o gylchred bywyd aderyn ac yn gofalu am gannoedd o filoedd o adar ar yr un pryd, neu gallent fod yn gweithio gyda dofednod fel rhan o fenter fwy a mwy amrywiol.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar fonitro a gofalu am ddofednod masnachol o dan wahanol systemau. Bydd y dysgwyr yn nodi systemau dofednod masnachol gwahanol gan gynnwys amrywiaeth o systemau lletya cysylltiedig â phob math o system gynhyrchu a bydd angen iddynt ddethol llety priodol gan ystyried materion lles anifeiliaid. Bydd y dysgwyr yn astudio gofynion hwsmona ar gyfer un neu fwy o ddosbarthiadau dofednod masnachol, a allai gynnwys cynhyrchu brwyliaid, adar dodwy masnachol (a ddefnyddir i gynhyrchu wyau i'w bwyta), hwyaid a thwrcïod.

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth baratoi cyfleusterau i letya un dosbarth o ddofednod, gan ofalu am yr adar a chofnodi perfformiad yr haid. Byddant yn ystyried dangosyddion perfformiad ar gyfer dofednod, yn mesur ac yn cofnodi perfformiad yr haid ac yn cymharu perfformiad â'r targedau.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Wybod gofynion y prif systemau dofednod masnachol

2 Deall gofynion hwsmona gwahanol systemau cynhyrchu dofednod

3 Gallu cyflwyno gweithdrefnau hwsmona arferol

4 Deall perfformiad cynhyrchu.

# Cynnwys yr uned

## 1 Gwybod gofynion y prif systemau dofednod masnachol

*Systemau:* systemau dwys ee cewyll, sguborau, gwasarn; systemau amgen ee adar buarth, archiau cludadwy; dosbarth ee brwyliaid, bridwyr, adar dodwy masnachol, twrcïod bridio, twrcïod pesgu, hwyaid bridio, magu cywion hwyaid;  pesgwyr ac adar dodwy, adar diwrnod oed ac ifanc; adar sydd ar fin dechrau dodwy; bridwyr; adar dodwy masnachol

*Lletya:* inswleiddio; goleuo; offer ee bwyta, yfed; nythod; systemau casglu wyau ee systemau cewyll awtomatig, systemau nythu awtomatig ac â llaw, systemau â llaw; estyllod; storio wyau; gwastraff; systemau cewyll ee cewyll confensiynol, cewyll wedi'u cyfoethogi; deddfwriaeth a chyfyngiadau perthnasol cyfredol; cywiriadau a/neu addasiadau (cyfarpar, golau, awyru) i fwyafu elw; lles anifeiliaid; materion amgylcheddol, effaith ar ddyluniad adeilad.

## 2 Deall gofynion hwsmona gwahanol systemau cynhyrchu dofednod

*Dulliau hwsmona:* dwysedd stocio; cymarebau paru; dulliau dal; adar buarth; sgubor; systemau cawell; porthi a maeth ar gyfer cyfradd dyfu a pherfformiad; dulliau porthi ee cadwyn wastad, porthwyr padell, bwydo ar lawr; protocolau meddyginiaeth

*Cyfarpar:* gwyntyllau; tyllau awyr; gwresogyddion; dulliau rheoli; larymau; dyfeisiau methu diogel; generaduron; naturiol ac â chymorth gwyntyll; cyfarpar mesur ee thermomedrau, hygromedrau, cyfarpar mesur digidol, mesuryddion cyflymder aer

*Yr amgylchedd:* o dan amodau tywydd poeth ac oer; goleuo a phatrymau goleuo; tymheredd; ansawdd aer, llif aer, lleiafswm cyfraddau awyru, rheoli awyru; iechyd a diogelwch; oeri anweddol

## 3 Gallu cyflwyno gweithdrefnau hwsmona arferol

*Paratoi:* glanhau; cynnal yr amgylchedd ee awyru, tymheredd, goleuo; cyfarpar ee porthwyr, yfwyr, gwresogyddion, gwyntyllau, systemau rheoli awyru; sefydlu bioddiogeledd; cofnodion; gwellt; iechyd a diogelwch; cyfarpar amddiffyn personol (PPE)

*Gofal:* arferion dyddiol ee gofynion deddfwriaethol, arolygu; cofnodi; rheoli'r amgylchedd; rheoli sbwriel sylfaenol; porthi; gwiriadau iechyd;  difa; systemau cynhyrchu dofednod ar raddfa fawr (dylunio, diben, arferion gwaith, dyrannau a rolau staff, cylchedau heidiau, heriau); deori; deor wyau; magu; cyfyngu ar stoc; rhoi meddyginiaeth

## 4 Deall perfformiad cynhyrchu

*Mesur:* samplo ee sampl ar hap, sampl cynrychioladol, cyfernod amrywiad (CV%); awtomataidd; porthiant; dŵr; meddyginiaeth; tymheredd; awyru; treuliant

*Perfformiad:* pwysau corff; amrywiad; niferoedd wyau; pwysau wyau; màs wyau; ansawdd wyau; marwoldeb; cyfradd drosi bwyd (FCR), ffrwythlondeb; gallu deor; ieir sydd â llety; ieir diwrnod; marwoldeb

*Targedau:* safonau brîd; targedau masnachol ee pwysau o ystyried oedran

*Cofnodion:* cyfrifiaduron; graffiau a siartiau; storio; gofynion cyfreithiol ee iechyd a diogelwch, lles adar, marwoldeb, meddygol

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae’r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| **Meini prawf asesu a graddio** | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i’r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 nodi'r prif systemau dofednod masnachol [YA] | T1 egluro ffactorau dilys sy'n pennu dewis pob system | Rh1 trafod heriau stocmonaeth a rheolaeth cynhyrchu dofednod ar raddfa fawr |
| Ll2 amlinellu'r ffactorau sy'n pennu dewis pob system | | |
| Ll3 disgrifio'r gwahanol ofynion lletya ar gyfer y prif systemau dofednod masnachol | | |
| Ll4 egluro gofynion hwsmona gwahanol ar gyfer gwahanol systemau cynhyrchu [YA] | T2 trafod, yn fanwl, ofynion maetholion system gynhyrchu a ddewiswyd | |
| Ll5 egluro'r hwsmonaeth sy’n ofynnol ar gyfer system benodol | | |
| Ll6 trafod problemau cyffredin cysylltiedig â dofednod mewn systemau cynhyrchu | | |
| Ll7 cyflawni tasgau stoc cysylltiedig [MC, DM, HR] | T3 cynhyrchu cynllun gwaith ar gyfer system cynhyrchu dofednod ar raddfa fawr | |
| Ll8 paratoi llety ar gyfer dosbarth penodol o ddofednod | | |
| Ll9 cyflawni gwaith gofalu arferol am stoc | | |

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll10 cynnal amodau amgylcheddol cywir ar gyfer systemau penodol | | |
| Ll11 mesur a chofnodi perfformiad system benodol [MC, HR] | | Rh2 dylunio gosodiad uned dofednod ar gyfer system gynhyrchu a ddewiswyd |
| Ll12 dadansoddi cofnodion ffisegol ac ariannol a ddewiswyd i asesu perfformiad system ddofednod. | T4 cyfiawnhau'r rhesymau dros gadw cofnodion cynhyrchu dofednod. | Rh3 dadansoddi, yn fanwl, mwyafrif y cofnodion ffisegol ac ariannol i asesu perfformiad system ddofednod yn gywir. |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| **Allwedd** | YA - ymholwyr annibynnol<br>MC - meddylwyr creadigol<br>DM - dysgwyr myfyriol<br>GT - gweithwyr tîm<br>HR - hunan-reolwyr<br>CE - cyfranogwyr effeithiol |
|---|---|

# Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

## Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon dylid defnyddio ystod mor eang o dechnegau â phosib. Gallai hyn gynnwys darlithoedd, trafodaethau, cyflwyniadau seminar, gwaith dofednod ymarferol o dan oruchwyliaeth, ymweliadau safle, lleoliadau gwaith, ymchwil ar y rhyngrwyd a/neu mewn llyfrgell a defnyddio profiad personol a/neu yn y diwydiant. Dylai'r cyflwyno ysgogi, ysbrydoli, addysgu ac ennyn brwdfrydedd y dysgwyr.

Dylid monitro lleoliadau gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd y profiad dysgu. Byddai'n fuddiol pe bai dysgwyr a goruchwylwyr yn ymwybodol o ofynion yr uned cyn cyflawni unrhyw weithgareddau cysylltiedig â gwaith, fel bod modd casglu tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol ar y pryd. Dylai'r dysgwyr ofyn am gofnodion arsylwi a/neu ddatganiadau tystion i'w defnyddio fel tystiolaeth o hyn.

Gallai siaradwyr gwadd arbenigol helpu i wneud y pwnc yn fwy perthnasol i ddysgwyr.

Pa ddulliau cyflwyno bynnag a ddefnyddir, mae'n hanfodol bod tiwtoriaid a dysgwyr yn cydymffurfio'n fanwl ag unrhyw ofynion bioddiogeledd ar ffermydd yr ymwelir â hwy. Dylai'r tiwtor fod yn ymwybodol, yn arbennig wrth gynhyrchu dofednod yn ddwys, bod rheoli amgylchedd reoledig yn sgil hanfodol ar gyfer stocman, a fwy na thebyg yn gyfrifol am fwyafrif y gwahaniaethau ym mherfformiad heidiau rhwng un fferm ac un arall.

Rhaid pwysleisio materion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â gweithio ar ffermydd dofednod a'u hatgyfnerthu'n rheolaidd, a rhaid cyflawni asesiadau risg cyn unrhyw weithgareddau ymarferol. Rhaid darparu PPE digonol a'u defnyddio ar ôl cynhyrchu asesiadau risg addas.

Dylai tiwtoriaid ystyried cyfuno'r cyflwyno, yr astudio preifat a'r asesu ar gyfer yr uned hon ag unedau ac offer asesu perthnasol eraill mae'r dysgwyr yn eu dilyn fel rhan o'u rhaglen astudio.

Mae deilliant dysgu 1 yn gofyn bod y dysgwyr yn nodi'r prif systemau cynhyrchu dofednod masnachol. Dylent ddatblygu eu gwybodaeth am y diwydiant y tu hwnt i'r agweddau hynny y byddant wedi dod ar eu traws mewn sefyllfa waith arferol. Mae hyn yn debygol o gael ei gyflwyno drwy ddarlithoedd ffurfiol, trafodaethau, ymweliadau â ffermydd, sesiynau ymarferol o dan oruchwyliaeth ac ymchwil annibynnol gan y dysgwyr.

Gellid ehangu ar yr wybodaeth am amrywiaeth o systemau a dosbarthiadau stoc sy'n ofynnol ar gyfer y graddau teilyngdod a rhagoriaeth trwy drafodaethau yn y dosbarth gyda dysgwyr eraill sydd wedi cael profiad ymarferol o weithio gyda dosbarthiadau gwahanol o stoc. Gall siaradwyr gwadd, yn arbennig y rhai sy'n dilyn uwch-brentisiaethau mewn Cynhyrchu Dofednod, fod yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth i ddysgwyr.

Mae deilliant dysgu 2 yn gofyn bod y dysgwyr yn nodi'r gofynion hwsmona sy'n ofynnol ar gyfer y gwahanol systemau cynhyrchu. O fewn amgylcheddau a reolir rhaid i'r dysgwyr arddangos dealltwriaeth o'r offer gofynnol a phwysigrwydd y gosodiadau cywir. Mae'r cyflwyno yn debygol o fod ar ffurf darlithoedd, trafodaethau, ymweliadau safle, sesiynau ymarferol o dan oruchwyliaeth ac ymchwil annibynnol gan y dysgwyr.

Mae deilliant dysgu 3 yn canolbwyntio ar agweddau ymarferol iechyd a lles dofednod, a'r tasgau stoc ar gyfer gwahanol systemau cynhyrchu dofednod. Bydd y dysgwyr yn caffael gwybodaeth a phrofiad ymarferol wrth gyflawni tasgau hwsmona a stoc. Bydd y cyflwyno yn bennaf ar ffurf trafodaethau, ymweliadau safle, sesiynau ymarferol o dan oruchwyliaeth ac ymchwil annibynnol gan y dysgwyr.

Mae deilliant dysgu 4 yn ymwneud â mesur a chofnodi perfformiad dofednod. Mae cadw cofnodion cywir yn ffactor allweddol ar gyfer pob fferm dofednod masnachol, ac ar gyfer sawl agwedd megis marwoldeb mae'n gyfreithiol ofynnol. Un ffordd ymarferol bosibl o gyflwyno'r deilliant dysgu hwn fyddai defnyddio data craidd o haid fasnachol go iawn, gan gynnwys ar gyfer magu a dodwy, a gofyn i ddysgwyr lunio graffiau cynhyrchu a ffigurau perfformiad o hyn. Ni ddylai'r cofnodion a ddefnyddir ar gyfer y deilliant dysgu hwn fod yr un cofnodion a ddefnyddiwyd gan y dysgwyr ar gyfer asesiad. Mae'n bwysig, fodd bynnag, bod y dysgwyr yn deall y broses gynhyrchu ar gyfer adar tyfu a dodwy, ond nid ar gyfer deorfa.

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys yr asesiad) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| **Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir** |
|---|
| Cyflwyniad a throsolwg o'r uned. |
| Trosolwg o'r prif systemau cynhyrchu dofednod masnachol/tueddiadau'r diwydiant. |
| **Aseiniad 1: Systemau Cynhyrchu Dofednod** (Ll1, Ll2, Ll3, Ll6, T1, D1)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad.<br>Ymchwil annibynnol i gwblhau'r asesiad. |
| Theori – dulliau hwsmona. |
| **Aseiniad 2: Hwsmonaeth Dofednod** (Ll4, Ll5, T2) |
| Y tiwtor yn cyflwyno brîff yr aseiniad |
| Theori - deori, deor, magu |
| Ymarferol – yn ymwneud â deori, deor, magu |
| **Aseiniad 3: Dylunio Uned Ddofednod** (Rh2)<br>Y tiwtor yn  cyflwyno'r aseiniad.<br>Amser i gyflawni |
| Theori - geneteg ar gyfer cynhyrchu, bridio, ymhadu |
| Tasgau stoc ymarferol - ee trin, meddyginiaeth, cofnodi |
| Theori - maeth |
| **Aseiniad 4: Hwsmonaeth Arferol Ymarferol** (Ll7, Ll8, Ll9, Ll10, T3)<br>Ymarfer trwy gydol yr uned - lleoliad neu ddyletswyddau - gan gynnwys giwiriadau iechyd, adnabod clefydau, rhoi bwyd/dŵr, rheoli'r amgylchedd, gweithdrefnau stoc arferol. |
| Theori – gofynion amgylchedd wedi'i reoli, materion lles |

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
| --- |
| **Aseiniad 5: Dadansoddi Perfformiad** (Ll11, Ll12, T4, Rh3)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad<br>Amser i gyflawni |
| Theori - gofynion y farchnad, storio'r cynnyrch, casglu data. |
| Adolygu'r uned |

## Asesu

Dylai'r fethodoleg asesu adlewyrchu'r cyfleoedd a geir gan amrediad y dulliau cyflwyno. Gallai gynnwys asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig, ymweliadau ag unedau dofednod addas ac, yn ddelfrydol, bydd yn cysylltu â lleoliadau profiad gwaith.

Ar gyfer Ll1 ac Ll2, rhaid i'r dysgwyr nodi'r prif systemau cynhyrchu dofednod masnachol ac amlinellu'r ffactorau sy'n pennu'r dewis o bob system. Disgwylir iddynt drafod amrediad o systemau, er enghraifft brwyliaid, bridwyr, pesgwyr ac adar dodwy. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf cyflwyniad darluniadol gyda nodiadau (gan ddefnyddio meddalwedd briodol neu daflunydd o bosib).

Ar gyfer Ll3 ac Ll4, rhaid i'r dysgwyr ddarparu gwybodaeth am y gwahanol ofynion lletya a hwsmona ar gyfer amrediad o systemau cynhyrchu. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am letya a bodloni canllawiau lles priodol. Gallai'r dysgwyr gynhyrchu cyflwyniad gan ddefnyddio diagramau a chynlluniau anodedig neu gyfres o ffotograffffau. Fel arall, gallai'r dystiolaeth fod ar yr un ffurf ag ar gyfer Ll1.

Gallai Ll7, Ll8, Ll9 ac Ll10 fod yn gysylltiedig. Mae Ll7 yn gofyn bod y dysgwyr yn cyflawni tasgau hwsmona arferol, dyddiol cysylltiedig â system gynhyrchu. Dylai'r dysgwyr sicrhau bod eu gweithgareddau'n unol â chodau lles, gofynion amgylcheddol a bioddiogeledd perthnasol.

Ar gyfer Ll8, Ll9 ac Ll10, rhaid i'r dysgwyr baratoi a chynnal dosbarth penodol o ddofednod. Gallai hyn fod yr un system gynhyrchu ag ar gyfer Ll7. Dylai'r tiwtoriaid nodi'r dosbarth dofednod a'r amcanion neu gytuno arnynt trwy drafod gyda'r dysgwyr. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y dasg fod yr un fath i bob dysgwr.

Dull asesu priodol fyddai i'r dysgwyr baratoi a gofalu am un sied o ddofednod yn ystod profiad gwaith, neu baratoi a gofalu am nifer o adar heb gymorth sylweddol yn y ganolfan. Profiad o drin un dosbarth o ddofednod yn unig sy’n ofynnol. Os asesir yn ystod lleoliad, dylid darparu datganiadau tystion gan gynrychiolydd addas a'u dilysu gan y tiwtor.

Ar gyfer Ll11 ac Ll12, rhaid i'r dysgwyr gofnodi perfformiad naill ai adar dodwy neu besgwyr a dadansoddi'r cofnodion perfformiad. Gallai'r tiwtor asesu hyn yn uniongyrchol yn ystod gweithgareddau ymarferol. Os defnyddir y fformat hwn, tystiolaeth addas o weithgareddau o dan arweiniad fyddai cofnodion arsylwi manwl wedi'u cwblhau gan y dysgwyr a'r tiwtor. Os asesir yn ystod lleoliad, dylid darparu datganiadau tystion gan gynrychiolydd addas a'u dilysu gan y tiwtor.

Ar gyfer T1, rhaid i'r dysgwyr egluro'r ffactorau sy'n pennu'r dewis o systemau cynhyrchu dofednod, a bydd hyn yn dystiolaeth fwy cynhwysfawr a manwl nag a gynhyrchwyd ar gyfer Ll2. Gallai'r dystiolaeth fod yn yr un fformat ag ar gyfer Ll1.

Ar gyfer T2, rhaid i'r dysgwyr drafod, yn fanwl, ofynion dosbarth dofednod a ddewiswyd o ran maetholion. Dylai'r tiwtoriaid nodi'r dosbarth dofednod neu gytuno ar hyn trwy drafod gyda'r dysgwyr. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai cymhlethdod y tasgau fod yr un fath i bob dysgwr. Gallai'r dysgwyr gynhyrchu cyflwyniad gan ddefnyddio diagramau a chynlluniau anodedig neu gyfres o ffotograffau fel yn Ll2.

Mae T3 yn gofyn bod y dysgwyr yn cynhyrchu cynllun gwaith ar gyfer system cynhyrchu dofednod graddfa fawr. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â Rh2.

Ar gyfer T4, mae’n ofynnol i'r dysgwyr gyfiawnhau'r rhesymau dros gadw cofnodion. Gallai hyn ganolbwyntio ar un system gynhyrchu. Dylai'r tiwtor nodi'r system neu gytuno arni trwy drafod gyda'r dysgwyr. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y tasgau fod yr un fath i bob dysgwr.

Ar gyfer Rh1, rhaid i'r dysgwyr drafod heriau stocmonaeth a rheolaeth cynhyrchu dofednod ar raddfa fawr. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y tasgau fod yr un fath i bob dysgwr.  Dylai'r dysgwyr, o leiaf, ddarparu tystiolaeth ynghylch dau ddosbarth dofednod, er enghraifft 30,000 o adar dodwy buarth a 250,000 o frwyliaid. Gall y dystiolaeth fod yn yr un fformat ag ar gyfer Ll1.

Ar gyfer Rh2 rhaid i'r dysgwyr ddylunio gosodiad uned ddofednod, ac mae'n debygol mai'r dyluniad terfynol fydd y dystiolaeth.

Mae Rh3 yn gofyn bod y dysgwyr yn dehongli ac yn dadansoddi cyfres lawn o gofnodion perfformiad ar gyfer haid wedi'i chwblhau o adar dodwy a phesgwyr o ddata craidd. Gellir cael cyfres o ddata craidd go iawn gan gynnwys niferoedd wyau, pwysau wyau, marwoldeb a threuliant porthiant, gan fenter fasnachol er mwyn i'r dysgwyr neu'r tiwtor ei defnyddio.

Mae dadansoddiad llawn o'r cofnodion yn ofynnol, a dylai'r tiwtor sicrhau bod y cofnodion yn ddigon manwl i alluogi hyn. Mae cofnodion heidiau dodwy, gan gynnwys gallu deor a ffigurau ffrwythlondeb, yn creu gweithgaredd asesu mwy defnyddiol a diddorol.

### Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, Ll3, Ll6, T1, Rh1 | Systemau Cynhyrchu Dofednod | Llunio trosolwg o'r prif systemau dofednod masnachol, y ffactorau sy'n pennu dewis pob system a'r heriau i stocmonaeth a rheoli o ganlyniad i gynhyrchu dofednod ar raddfa fawr. | Cyflwyniad drwy boster/PowerPoint/ar lafar neu gyfuniad |
| Ll4, Ll5, T2 | Hwsmona Dofednod | Cynhyrchu adroddiad ar y technegau hwsmona angenrheidiol ar gyfer gwahanol systemau cynhyrchu. Rhaid cynnwys trafodaeth fanwl am ofynion maeth system a ddewiswyd. | Tystiolaeth ddarluniadol ysgrifenedig |
| Rh2 | Dylunio Uned Ddofednod | Gan ddefnyddio ardal gynhyrchu gyfredol, lle gellir argymell addasiadau, neu ardal a ddyrannwyd gan eich tiwtor, dylunio uned ddofednod ar gyfer system gynhyrchu a nodwyd.<br><br>Cyfiawnhau'r dyluniad o ran gofynion lles, deunyddiau adeiladu, deunyddiau, trin, etc. | Cynllun anodedig.<br><br>Gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi'r cynllun.<br><br>Cynhyrchu cynllun gwaith ar gyfer y system gynhyrchu |
| Ll7, Ll8, Ll9 Ll10, T3 | Hwsmonaeth Arferol Ymarferol | Asesu tasgau hwsmona arferol a da byw ymarferol i'w hasesu gan y tiwtor/goruchwyliwr gwaith. | Adroddiadau dyletswydd gan oruchwyliwr gwaith neu asesiad ymarferol gan y tiwtor.<br><br>Datganiadau tystion/arsylwyr |
| Ll11, Ll12, T4, Rh3 | Dadansoddi Perfformiad | Dylech ddadansoddi perfformiad uned gynhyrchu a ddewiswyd o gyfres o ddata a ddarparwyd gan eich tiwtor/goruchwyliwr lleoliad gwaith | Dadansoddi data. Adroddiad ysgrifenedig |


 © Pearson Education Limited 2019

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| |
|---|
| **Lefel 2** |
| Cyflwyniad i Gynhyrchu Anifeiliaid Fferm |
| **Lefel 3** |
| Deall Bridio a Maeth Da Byw |
| Deall a Hybu Iechyd Anifeiliaid |
| Elfen LP7.1 Paratoi cyflenwadau porthiant a dŵr ar gyfer da byw<br>Elfen LP7.2 Monitro a chynnal cyflenwad porthiant a dŵr da byw<br>Elfen LP38.1 Monitro a chynnal paratoi adar ar gyfer atgenhedlu<br>Elfen LP38.2 Darparu'r amodau i ffrwythloni ddigwydd<br>Elfen LP39.1 Monitro a chynnal magu adar ifanc<br>Elfen LP39.2 Monitro a chynnal twf adar ifanc<br>Elfen LP40.1 Monitro derbyn wyau i'w deor<br>Elfen LP40.2 Dethol a monitro wyau i'w deor |

## Adnoddau hanfodol

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i uned ddofednod, gyda nifer digonol o adar, sy'n darparu amgylchedd realistig i baratoi ar gyfer gwaith yn y diwydiant cynhyrchu dofednod.

Dylai'r tiwtoriaid sy'n cyflwyno'r uned hon fod yn rheolwyr dofednod profiadol a chymwys. Yn ddelfrydol, dylent feddu ar brofiad diwydiannol diweddar yn y diwydiant cynhyrchu dofednod neu ddangos tystiolaeth o gyswllt rheolaidd â'r diwydiant a/neu ddiweddaru technegol.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar yr wybodaeth gefndir a'r sgiliau ymarferol mae eu hangen ar ddysgwyr i gael cyflogaeth yn y diwydiant cynhyrchu dofednod.

Dylai mynediad i leoliadau gwaith a/neu ymweliadau safle fod yn rhan annatod o gyflwyno'r uned hon. Yn y modd hwn mae cyflogwyr ac ymarferwyr y diwydiant yn gallu cael mewnbwn i ddatblygiad dysgwyr. Gellir gwella'r mewnbwn hwn ymhellach os yw'r dysgwyr a'r goruchwylwyr lleoliadau yn ymwybodol o ofynion yr uned cyn cyflawni gweithgareddau byd gwaith, fel bod tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol yn gallu cael ei chydnabod.

Byddai siaradwyr arbenigol gwadd o'r diwydiant yn ychwanegu perthnasedd pellach i'r pwnc.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau

Appleby M C, Hughes B O, Mench J A (gol) – *Poultry Behaviour and Welfare* (Nottingham University Press, 2004) ISBN 0851996671

Gillespie J – *Modern Livestock Poultry Production, 6ed Argraffiad* (Delmar, 2000) ISBN 0766816079

Leeson S a Summers J D – *Broiler Breeding Production (Ailargraffiad digidol)* (Nottingham University Press, 2009) ISBN 1904761798

Leeson S a Summers J D – *Commercial Poultry Nutrition 3 (Ailargraffiad Digidol)* (Nottingham University Press, 2009) ISBN 190476178X

McMullin – *Pocket Guide to Poultry Health and Disease* (Nottingham University Press, 2004) ISBN 095301505X

Rose S – *Principles of Poultry Science* (CABI Publishing, 1996) ISBN 085199122X

Sainsbury D – *Poultry Health and Management: Chickens, Ducks, Turkeys, Geese, Quail, 4ydd Argraffiad* (Blackwell Science, 1999) ISBN 0632051728

Walker A a Charles D – *Poultry Environmental Problems* (Nottingham University Press, 2002) ISBN 1897676972

### Cyfnodolion

*Poultry World*

*World Poultry*

### Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.fwi.co.uk/poultry | *Farmers Weekly*, Poultry news |
| www.thepoultrysite.com | gwefan ar gyfer y diwydiant dofednod byd-eang |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl hwn yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Meddylwyr creadigol** | defnyddio technegau ar gyfer systemau cynhyrchu gwahanol wrth gyflawni tasgau hwsmona arferol |
| **Dysgwyr myfyriol** | cymharu dulliau hwsmona ar gyfer amrediad o systemau cynhyrchu |
| **Hunan-reolwyr** | paratoi a chynnal llety a gofal stoc<br>trefnu amser i sicrhau y caiff pob tasg ei chyflawni. |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | ymchwilio i systemau cynhyrchu dofednod |
| **Meddylwyr creadigol** | paratoi cynllun o osodiad uned ddofednod a chynllun gweithio. |


Hydref 2019 © Pearson Education Limited 2019

## Sgiliau swyddogaethol – Lefel 2

| **Sgil** | **Pan fydd y dysgwyr yn…** |
|---|---|
| **TGCh – Canfod a dethol gwybodaeth** | |
| Cael mynediad i wybodaeth seiliedig ar TGCh, chwilio amdani, ei dewis a'i defnyddio – a gwerthuso ei haddasrwydd at y diben | defnyddio'r rhyngrwyd i ymchwilio i wybodaeth am systemau cynhyrchu dofednod |
| **TGCh – Datblygu, cyflwyno a chyfathrebu gwybodaeth** | |
| Mewnbynnu, datblygu a fformadu gwybodaeth yn annibynnol i gyd-fynd â'i hystyr a'i diben gan gynnwys:<br>• testun a thablau<br>• delweddau<br>• rhifau<br>• cofnodion | llunio cyflwyniad am systemau cynhyrchu dofednod<br>cynnal cofnodion perfformiad |
| Cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'r diben a'r gynulleidfa | llunio cyflwyniad am systemau cynhyrchu dofednod<br>cynhyrchu cynllun uned ddofednod<br>cynhyrchu cynllun gwaith |
| **Mathemateg** | |
| Nodi'r sefyllfa neu'r broblem a'r dulliau mathemategol angenrheidiol i'w datrys | defnyddio gwybodaeth lles am ofynion lle ar gyfer dofednod a gaiff eu lletya<br>llunio cynllun ar gyfer uned ddofednod – dyrannu lle |
| Dethol ystod o sgiliau a'u cymhwyso i ganfod datrysiadau | dadansoddi cofnodion ffisegol ac ariannol i asesu perfformiad |
| Dehongli a chyfathrebu datrysiadau i broblemau ymarferol mewn cyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | cynhyrchu canlyniadau o ddadansoddiad o wybodaeth ffisegol ac ariannol<br>dehongli a gweithredu ar wybodaeth a ddarparwyd gan systemau amgylcheddol a reolir |
| **Iaith** | |
| Darllen – cymharu, dethol, darllen a deall testunau a'u defnyddio i gywain gwybodaeth, syniadau, dadleuon a safbwyntiau | ymchwilio ar gyfer cyflwyniadau |
| Ysgrifennu – ysgrifennu dogfennau, gan gynnwys darnau ysgrifenedig estynedig, cyfathrebu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau, yn effeithiol ac yn berswadiol | cynhyrchu cyflwyniadau ysgrifenedig i'w hasesu. |